

### Tasg 3

# Cyfrifol!

## Gwaith Masnach Deg

1. Ar ôl edrych ar y sleidiau, ceisiwch greu diffiniad, dim mwy na 60 gair, i ddisgrifio beth yw Masnach Deg.

Ysgrifennwch eich diffiniad chi isod ac yna cymharwch eich diffiniad chi â diffiniadau eraill yn y dosbarth.

2. Beth yw'ch barn chi am Fasnach Deg? Rhowch resymau dros eich barn.

3. Mae llawer o weithleoedd, canolfannau ac ysgolion yn ceisio cefnogi gwaith Masnach Deg drwy brynu nwyddau arbennig a drwy gynnal gweithgareddau arbennig.

Mae mwy o wybodaeth ar hyn ar:

<http://fairtradewales.com/we/fair-trade-nation/youth-groups-clubs>

<http://fairtradewales.com/we/fair-trade-nation/schools>

Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i drefnu ymgyrch arbennig ar gyfer eich ysgol chi.

Trafodwch:

- pa fath o ymgyrch
- ble
- pryd: dyddiad ac amser – neu efallai y bydd yn ymgyrch barhaol
- beth yn union fydd yn digwydd
- y pris mynediad – os oes pris mynediad
- oes angen cysylltu â rhywun i ofyn am help – pwy? sut?
- unrhyw wybodaeth arall.

Hefyd, meddyliwch am enw da ar gyfer yr ymgyrch.

a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop / corr yn neu ddiagram tebyg.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

c. Trefnwch y digwyddiad – ond yn gyntaf bydd rhaid i chi rannu cyfrifoldebau – pwy sy'n mynd i wneud beth.

ch. Paratowch ddarnau ysgrifenedig i sôn am yr ymgyrch ac i geisio perswadio pobl i gymryd rhan ynddi, e.e.

- poster
- taflenni
- darnau ar gyfer y we
- erthyglau ar gyfer cylchlythyr yr ysgol neu'r papur bro lleol.